# Sgiliau Hanfodol Cymru

## CYMHWYSO RHIF

**Nodiadau pwysig:**

1. Mae pob lefel o'r sgil yn ymgorffori'r lefelau blaenorol ac yn adeiladu arnyn nhw.
2. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau 'Ymhelaethu ar ofynion y dystiolaeth' a 'Diffiniadau Gorfodol Cymhwyso Rhif' sy'n rhoi manylion mandadol am bob cydran ac sy'n rhan hanfodol o'r safonau.

## Lefel 1

Mae hyn yn golygu dangos eich bod yn gallu:

- defnyddio sgiliau rhif a data rhifiadol a gwybodaeth rifiadol i fynd i'r afael â phroblem neu dasg
- gwneud cyfrifiadau
- dehongli'ch canlyniadau a chyflwyno'ch canfyddiadau.

### Rh1.1 Deall data rhifiadol

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**Rh1.1.1**
Deall a disgrifio o leiaf un broblem neu dasg ymarferol benodol yn ymwneud ag ystod o ddata rhifiadol a gwybodaeth rifiadol.

**Rh1.1.2**
Cytuno gyda pherson priodol sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r dasg.

**Rh1.1.3**
Cael data rhifiadol a gwybodaeth rifiadol sy'n berthnasol o ddwy ffynhonnell o leiaf i ateb pwrpas eich tasg.

Mae'n rhaid i'ch ffynonellau gynnwys o leiaf **un** tabl, siart, graff neu ddiagram.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- wirio gyda pherson priodol eich bod chi'n deall y broblem neu'r dasg a chytuno sut y byddwch yn mynd i'r afael â hi
- darllen, deall a chael hyd i wybodaeth mewn tablau, diagramau, siartiau a graffiau syml
- darllen a deall rhifau wedi eu cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol yn cynnwys rhifau mawr, mewn ffigurau neu eiriau, ffracsiynau syml, degolion, canrannau, cymarebau a rhifau negyddol
- casglu a chofnodi data o arsylwadau manwl gywir
- darllen graddfeydd ar offer mesur cyfarwydd gan ddefnyddio unedau bob dydd
- defnyddio graddfeydd ar ddiagramau i ddarganfod a dehongli gwybodaeth
- defnyddio siâp a gofod i gofnodi mesuriadau a gwneud arsylwadau.

### Rh1.2 Gwneud cyfrifiadau

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**Rh1.2.1**
Defnyddio dulliau priodol i gael y canlyniadau sydd eu hangen arnoch chi a disgrifio'r dulliau ddefnyddioch chi.

**Rh1.2.2**
Defnyddio'r data a'r wybodaeth rydych chi wedi eu cael i wneud cyfrifiadau sy'n berthnasol i'ch tasg yn ymwneud â:

a) niferoedd neu feintiau
b) graddfeydd neu gyfrannedd
c) trafod ystadegau.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- ganfod a defnyddio dulliau a chyfrifiadau addas i'ch tasg
- gweithio i'r lefelau cywirdeb a roddwyd i chi
- adio a thynnu rhifau cyfan a degolion syml gan ddefnyddio cyfrifiannell a heb ddefnyddio cyfrifiannell
- lluosi a rhannu degolyn syml â rhif cyfan, gan ddefnyddio cyfrifiannell a heb ddefnyddio cyfrifiannell
- cofio ffeithiau am luosi hyd at 10x10 a gwneud y cysylltiad â ffeithiau am rannu
- deall a darganfod ffracsiynau a chanrannau syml
- adnabod cyfwerthoedd rhwng ffracsiynau cyffredin, canrannau a degolion, a defnyddio rhain i ddarganfod cyfrannau o rifau cyfan
- adio, tynnu, lluosi, rhannu a chofnodi symiau o arian
- darllen, mesur a chofnodi amser mewn fformatau cyffredin ar gyfer dyddiad ac amser
- dewis a defnyddio unedau ac offer priodol i amcangyfrif, darllen, mesur a chymharu hyd, pwysau, cynhwysedd, amser a thymheredd
- cyfrifo o fewn system drwy
  - adio a thynnu unedau mesur cyffredin
  - newid unedau mesur yn y system
- gweithio allan nodweddion amrywiaeth o siapiau yn cynnwys perimedr, arwynebedd a chyfaint
- darlunio siapiau 2D mewn gwahanol leoliadau gan ddefnyddio gridiau
- defnyddio cymarebau a chyfrannedd
- defnyddio tebygolrwydd (gan ddefnyddio ffracsiynau, degolion a chanrannau) i ddangos bod rhai digwyddiadau yn fwy tebygol o ddigwydd nag eraill
- darganfod cyfartaledd (cymedr) hyd at 10 eitem
- darganfod amrediad hyd at 10 eitem
- cyfrifo'n effeithlon gan ddefnyddio rhifau cyfan, ffracsiynau a degolion
- defnyddio ffyrdd gwahanol o wirio'ch dulliau a'ch cyfrifiadau
- canfod a chywiro unrhyw wallau
- gwirio bod eich canlyniadau yn gwneud synnwyr.

## Rh1.3 Dehongli canlyniadau a chyflwyno canfyddiadau

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**Rh1.3.1**
Cyflwyno'ch canfyddiadau gan ddefnyddio siartiau, graffiau, neu ddiagramau.

**Rh1.3.2**

Disgrifio'r hyn mae'ch canlyniadau yn ei ddweud wrthych ac esbonio sut maen nhw'n ateb pwrpas eich tasg.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- ddehongli canlyniadau eich cyfrifiadau
- dangos sut mae'ch canlyniadau yn perthyn i'r broblem neu'r dasg
- canfod a disgrifio mwy nag un ffordd briodol o gyflwyno'ch canfyddiadau i gynulleidfa gyfarwydd benodol, gan gynnwys y defnydd o siartiau neu ddiagramau
- defnyddio dulliau priodol i gyflwyno'ch canfyddiadau gan gynnwys siart neu graff, a diagram, a defnyddio'r unedau cywir
- labelu'ch gwaith yn gywir
- disgrifio'r hyn mae eich canlyniadau yn ei ddweud wrthych ac egluro sut maen nhw'n ateb pwrpas eich tasg.

**Datganiad mynediad**
Efallai na fydd ymgeiswyr ag anableddau penodol yn gallu dangos eu bod yn gymwys drwy gyflwyno yr holl dystiolaeth yn y dull a nodir yn y safonau hyn.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn gellir gwneud addasiadau rhesymol i ofynion y dystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gellir caniatáu eithrio. Ceir manylion pellach am addasiadau rhesymol ac eithrio ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau penodol mewn dogfen ar wahân ar ymhelaethu.